# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Maesteilo**

**Cartref Gofal Maesteilo**
**Capel Isaac**
**Llandeilo**
**SA19 7TG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

20 Mehefin 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Maesteilo

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Swanton Care and Community (Maesteilo Care Homes) Ltd a Swanton Care & Community Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda, yn rhyngweithio mewn ffordd garedig a gofalgar, ac yn darparu cymorth priodol. Mae'r bobl yn byw bywydau hapus a bodlon ac yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Anogir pob unigolyn i gael llais: mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn i'r bobl allu trafod materion a sicrhau nad oes unrhyw un heb ei gynnwys. Mae cofnodion gofal yn disgrifio'n glir sut mae'r gweithwyr gofal yn diwallu anghenion unigol y bobl. Mae'r cartref yn cadw pob un yn ddiogel gan ddefnyddio mesurau rheoli heintiau cadarn.

Mae’r tîm rheoli proffesiynol a sefydlog yn ymdrechu yn barhaus i ddatblygu'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl pan fo hynny’n bosib. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd i siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartref, eu perthnasau, y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, a’r gweithwyr gofal er mwyn cael adborth am y gwasanaeth.

Mae'r darparwr wedi bod yn rhagweithiol iawn trwy ddefnyddio arferion diogel yn ystod y pandemig, gan gadw'r bobl yn y gwasanaeth a’r gweithwyr gofal yn iach. Dywed y gweithwyr gofal eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan y rheolwr ac yn derbyn goruchwyliaeth unigol reolaidd i drafod eu gwaith. Mae ystod o hyfforddiant staff ar gael i helpu'r gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl yn ddiogel ac yn effeithiol.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd oherwydd bod y gweithwyr gofal yn gwahodd pob person i fod yn rhan o benderfyniadau am eu cymorth fel mater o drefn. Mae gweithwyr allweddol yn gweithio gyda'r bobl i sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddeall y cymorth a gânt. Mae'r awyrgylch hamddenol yn y lleoliad yn helpu'r bobl i deimlo'n gyfforddus. Mae'r adeilad â digon o le ac wedi'i addurno'n dda, sy'n galluogi'r bobl i dderbyn ymwelwyr mewn mannau tawel os dymunant. Mae'r bobl wedi ymlacio, ac yn gyfforddus ac yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r gweithwyr gofal yn annog ac yn cefnogi'r bobl i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut y maent yn treulio'u hamser.

Mae'r bobl yn gyfarwydd â'r gweithwyr gofal, sy'n rhoi'r hyder iddynt fod eu hanghenion a'u dewisiadau yn cael eu deall. Anogir pawb i roi eitemau personol yn eu hamgylchoedd ym mha bynnag ffordd y maent yn dymuno. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl ac yn cynnwys yr hyn sydd orau gan unigolion yn bersonol a'u cefndir teuluol er mwyn nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn rhoi llawer iawn o wybodaeth bwysig i'r gweithwyr gofal cyn iddynt ddechrau rhoi cymorth i'r bobl o ddydd i ddydd.

Gall y bobl wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt ac sy'n eu gwneud yn hapus. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ystod eang o hobïau megis crochenwaith, garddio, gwaith coed, a chelf a chrefft o bob math yn y cartref ac mewn amrywiaeth o adeiladau allanol o amgylch y prif dŷ. Disgrifir gweithgareddau y mae'r bobl yn cymryd rhan ynddynt yn eu cofnodion gofal fel pethau y maent yn eu mwynhau. Mae'r rheolwr yn ceisio paru sgiliau a diddordebau'r gweithwyr gofal â'r bobl sy'n cael eu cymorth: gwelsom un enghraifft wych o hyn mewn ystafell a oedd yn llawn o fodel o reilffordd, yn cynnwys bryniau, rhaeadrau, a thwneli, i gyd wedi'u hadeiladu gan ddau berson a'u gweithwyr gofal.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Mae gan y gweithwyr gofal cydberthnasau da â'r bobl. Mae pob un wedi ymlacio ac yn gyfforddus yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn ffyrdd cadarnhaol, gyda sgyrsiau hwyliog. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen. Mae'r tîm rheoli yn diogelu preifatrwydd a gwybodaeth bersonol y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cymorth, arweiniad a hyfforddiant rheolaidd: maent wedi bod trwy broses recriwtio dda ac mae uwch aelodau o'r staff yn eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y bobl. Gall pob gweithiwr gael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau i'w galluogi i amddiffyn y bobl sy'n agored i niwed.

## Gofal a Chymorth

Ar y cyfan, mae gan y bobl gynlluniau cywir ar gyfer sut mae'r gwasanaeth yn darparu eu cymorth. Mae'r darparwr yn ystyried ystod o wybodaeth i sicrhau y gall ddiwallu anghenion y bobl. Mae system gofnodi fanwl yn darparu cofnod clir o drefniadau cymorth y bobl. Mae asesiadau risg a chynlluniau personol yn disgrifio ymyriadau iechyd. Mae'r gweithwyr allweddol a'r uwch aelodau o staff yn adolygu pob dogfen yn rheolaidd, fel eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Mae'r gweithwyr gofal yn rhoi'r amser sydd ei angen ar y bobl yn rheolaidd i siarad am unrhyw bryderon. Mae asesiadau o iechyd corfforol a meddyliol ac asesiadau risg diweddar yn helpu i gynnal annibyniaeth y bobl.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o haint. Mae arferion hylendid da trwy gydol y gwasanaeth a gall y gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau pryd bynnag y bo angen. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag heintiau COVID-19 cyn belled ag y bo modd: mae hyn yn cynnwys monitro pob ymwelydd a'r defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol gan bob gweithiwr gofal. Mae'r gwasanaeth yn cadw nwyddau glanhau yn ddiogel mewn cypyrddau o dan glo, ac mae nodiadau canllaw ar gyfer trin y cynhyrchion.

Daeth llawer o weithgareddau cymunedol i ben yn ystod y pandemig, ond mae'r tîm staff yn parhau i fod yn llawn cymhelliant ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl. Yn ogystal, mae'r amrywiaeth eang o weithgareddau sydd ar gael ar y safle, ynghyd â'r gerddi mawr o amgylch y cartref, wedi golygu bod y bobl yn gallu cynnal eu harferion am lawer o'r amser. Roedd y gweithwyr gofal hefyd yn sicrhau bod y bobl yn gallu cadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theuluoedd trwy ddefnyddio iPads ac ati.

Cyn belled ag y bo modd, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu pobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae cofnodion gofal yn nodi'n glir unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y bobl, ac mae cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl.
Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio os bydd angen gwneud hynny. Byddent yn mynd at unrhyw un o'r uwch aelodau o staff, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, megis y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent yn credu bod angen iddynt wneud hynny.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg oherwydd ei fod yn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae rhai o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg, ac mae rhai aelodau o'r staff hefyd yn siarad Cymraeg. Gwnaethom drafod â'r rheolwr y posibilrwydd o sicrhau bod canllaw i ddefnyddwyr gwasanaeth y cartref ar gael yn ddwyieithog, a fyddai'n helpu'r bobl sy'n siarad Cymraeg i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch dod i'r cartref.

## Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael cymorth mewn amgylchedd hyfryd. Mae'r prif adeilad yn blasty wedi'i amgylchynu gan ei goetir 19 erw ei hun. Mae'r cartref yn ddiogel, yn gynnes ac yn lân. Mae'r bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n gyffyrddus ac yn hapus: mae amrywiaeth o ardaloedd cymunol, yn ogystal â thiroedd helaeth lle gall y bobl dreulio amser yn gweithio, neu'n ymlacio gyda ffrindiau a pherthnasau. Mae dwy ystafell gan bawb – un ystafell wely ac un ar gyfer ymlacio yn ystod y dydd. Mae dau berson yn byw yn eu fflatiau eu hunain mewn adeilad ar wahân. Mae digon o le ym mhob ystafell ac maent wedi'u haddurno i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gyda thrugareddau addurniadol, carpedi, llenni a chlustogau, lluniau ac eitemau o ddodrefn. Mae pob ardal gymunol wedi'i haddurno â gwaith celf a ffotograffau'r bobl. Dangosodd un person ei baentiad a oedd wedi'i arddangos ar y wal i ni a dywedodd yn falch, *"Fe wnes i hwnnw!"*

Mae'r bobl yn ddiogel rhag ymwelwyr anawdurdodedig yn dod i mewn i'r adeilad, gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch ar y drws ffrynt cyn cael mynediad a chofnodi eu hymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth ddod i mewn a gadael. Mae'r cofnodion gofal ond ar gael i aelodau awdurdodedig o'r tîm staff. Mae cofnodion y gweithwyr cyflogedig a gwybodaeth bersonol arall, megis cofnodion Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, yn cael eu cadw'n ddiogel yn swyddfa'r rheolwr.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau clir ar waith ac mae'r gweithwyr gofal yn defnyddio menig a ffedogau wrth ddarparu gofal personol. Nid oes rhwystrau i'r allanfeydd tân ac mae cofnodion cynnal a chadw yn dangos tystiolaeth o brofion larwm tân wythnosol. Mae'r holl ddefnyddiau sy'n destun Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 yn cael eu storio'n gywir, yn unol â'r rheoliadau hyn ac mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

At ei gilydd, mae gan y darparwr weledigaeth glir o'r cymorth y mae'n ei ddarparu, gan roi sylw cadarnhaol i bob unigolyn sy'n derbyn cymorth. Mae'r tîm rheoli yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac mae'r unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad yn rheolaidd. Cynhelir trafodaethau rheolaidd â'r bobl yn y cartref, aelodau eu teuluoedd a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen iddynt wneud hynny: rhoddodd un person yr arwydd 'bawd i fyny' i ni pan ofynnwyd iddo a oedd yn teimlo'n ddiogel ac roedd rhywun arall yn gwenu ac yn pwyntio at weithiwr gofal penodol pan wnaethom ofyn â phwy y byddai'n siarad pe bai ganddo broblem.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn digwydd cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio – mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau geirdaon, gwiriad ffotograff, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r rhaglen sefydlu staff yn gysylltiedig â chanlyniadau dysgu unigol a'r 'Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant penodol sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi, megis hyfforddiant ar gyfer codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth, iechyd meddwl, diabetes a chyfathrebu. Mae cofnodion y sesiynau goruchwylio gweithwyr a gynhelir bob tri mis a'r arfarniadau blynyddol yn dangos y gall pob gweithiwr gofal drafod unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi mewn lleoliad ffurfiol a bod y sgyrsiau'n cael eu cofnodi. Mae'r unigolyn cyfrifol yn nodi'r holl gamau sydd eu hangen i wella llesiant y bobl mewn adroddiadau ansawdd gofal bob chwe-mis sy'n llawn gwybodaeth.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/07/2022